Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cadw Cymru'n gynnes â gwala y gaeaf hwn
## Papur briffio

Rhagfyr 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6307**
E-bost: **GarethDavid.Thomas@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cadw Cymru'n gynnes â gwala y gaeaf hwn
## Papur briffio

Rhagfyr 2023

**Awduron:**
Gareth Thomas, Chloe Corbyn, Elfyn Henderson a Jennie Bibbings.

Ar 8 Rhagfyr, bydd y **Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog** – sef un o bwyllgorau'r Senedd – yn craffu ar waith y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, ar gadw Cymru'n gynnes â gwala y gaeaf hwn. Mae'r papur briffio hwn yn nodi rhai o'r materion allweddol y mae'n bosibl y byddan nhw'n cael eu trafod yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

At hynny, bydd y Pwyllgor yn craffu ar waith y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth AS, mewn perthynas â'r Cytundeb Cydweithredu. Gallwch archwilio'r materion allweddol yn y papur briffio rydym wedi'i gynhyrchu ar gyfer y sesiwn honno.

# Cynnwys

**1. Cefnogaeth gyda chostau byw a Datganiad yr Hydref .......... 1**

Cefnogaeth a ddarperir gan lywodraethau Cymru a'r DU .......... 1

Adroddiad grŵp arbenigol costau byw .......... 1

Datganiad yr Hydref .......... 2

Ymgyrch Cynnes y Gaeaf Hwn .......... 2

**2. Prisiau ynni .......... 3**

Cap prisiau .......... 3

Adolygiad Ofgem o daliadau sefydlog .......... 4

Mesuryddion rhagdalu .......... 5

**3. Tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni .......... 6**

Tlodi tanwydd .......... 6

Y Rhaglen Cartrefi Clyd .......... 6

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith .......... 7

Canolfannau Clyd .......... 8

**4. Targedu cymorth at y rheini sydd ei angen fwyaf ................ 8**

Cefnogaeth wedi'i thargedu i deuluoedd ac aelwydydd ag o leiaf un person ag anabledd ........ 8

Helpu rhentwyr i aros yn eu cartrefi ........ 8

Cyrchu cyngor a chymorth ariannol ........ 9

Y Gronfa Cymorth Dewisol ........ 10

**5. Tlodi bwyd ........ 10**

Banciau bwyd ........ 10

Dull mwy hirdymor o fynd i'r afael â thlodi bwyd ........ 11

Strategaeth Bwyd Cymunedol ........ 11

**6. Bwydo plant oed ysgol ........ 12**

Ymestyn cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim i blant oed ysgol uwchradd ........ 12

Y penderfyniad i atal prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ........ 12

Brecwast ysgol am ddim i blant Blwyddyn 7 ........ 13

Darparu prydau ysgol maethlon ........ 13

# 1. Cefnogaeth gyda chostau byw a Datganiad yr Hydref

## Cefnogaeth a ddarperir gan lywodraethau Cymru a'r DU

Mae Llywodraeth y DU wedi parhau i ddarparu **Taliadau Costau Byw** i aelwydydd ar fudd-daliadau penodol, pensiynwyr a phobl ag anableddau yn ystod 2023-24. Mae'n darparu'r cymorth a ganlyn:

- Tri thaliad gwerth cyfanswm o £900 i aelwydydd sy'n cael budd-daliadau nawdd cymdeithasol penodol.
- Taliad o £150 i bobl sy'n cae budd-dal anabledd cymwys.
- Taliad Costau Byw i bensiynwyr – rhwng £150 a £300 – a delir fel rhan o'r Taliad Tanwydd Gaeaf.

Nid yw'n glir a fydd Taliadau Costau Byw yn cael eu hymestyn i 2024-25.

Mae Llywodraeth Cymru **wedi dyrannu** £18.8 miliwn o gyllid ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol ("y Gronfa") yn 2023-24 a 2024-25 fel ei gilydd. At hynny, mae wedi parhau i ddarparu cymorth i gartrefi nad ydynt ar y grid drwy'r Gronfa, ac wedi **cynorthwyo aelwydydd sydd ar fesuryddion rhagdalu, ac aelwydydd nad ydynt ar y grid** drwy'r Cynllun Talebau Tanwydd a weithredir gan y Sefydliad Banc Tanwydd.

Y gaeaf hwn, ni fydd Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru na'r Cynllun Cymorth Costau Byw a oedd ar waith yn 2022-23, ar gael.

Darperir manylion cymorth gyda biliau ynni yn adran 2 y papur briffio hwn.

## Adroddiad grŵp arbenigol costau byw

Gwnaeth Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw gyhoeddi **adroddiad i Lywodraeth Cymru** ar 26 Medi. Mae'r adroddiad yn gwneud 29 o argymhellion i lywodraethau Cymru a'r DU. Mae rhagor o fanylion am argymhellion penodol mewn adrannau diweddarach.

Wrth ymateb i gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn **ar 28 Tachwedd**, dywedodd y Prif Weinidog:

> Dyma rai o'r meysydd lle mae cynnydd wedi cael ei wneud: tai a digartrefedd, sicrhau'r incwm gorau i bobl, a lleihau cost y diwrnod ysgol. Ond, gadewch i ni fod yn glir, does dim cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflawni pob un o'r 29 o argymhellion. Mae dewisiadau anodd yn cael eu gwneud, gyda chymorth adroddiad y grŵp arbenigol.

## Datganiad yr Hydref

Gwnaeth Canghellor y Trysorlys **Ddatganiad yr Hydref** ar 22 Tachwedd. Roedd y canlynol ymhlith y prif fesurau a gyhoeddwyd yn ymwneud ag aelwydydd:

- Toriad yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol gweithwyr o 12% i 10%, ynghyd â thoriadau mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer yr hunangyflogedig.
- Cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol (yr isafswm cyflog statudol) i £11.44 yr awr, a'r trothwy oedran ar gyfer derbyn hwn wedi gostwng o 23 i 21.
- Uwchraddio budd-daliadau nawdd cymdeithasol gan 6.7% yn 2024-25, yn seiliedig ar y gyfradd chwyddiant ym mis Medi 2023.
- Cynyddu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ar gyfer cartrefi'r sector rhentu preifat i'r 30ain canradd o renti'r farchnad leol ym mis Ebrill 2024.

Ymatebodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i Ddatganiad yr Hydref ar 22 Tachwedd. Yn **ei datganiad**, dywedodd:

> Nid yw'r argyfwng costau byw ar ben – mae disgwyl i brisiau ynni godi eto ym mis Ionawr, ac mae chwyddiant yn dal i fod ymhell uwchlaw targed Banc Lloegr o 2%. Rwy'n falch bod y Canghellor wedi gwrando o'r diwedd ar ein galwadau niferus i gynyddu Lwfans Tai Lleol, sydd wedi'i rewi ers 2020. Fodd bynnag, mae'n anffodus na fydd ei gyhoeddiad yn sicrhau bod y cynnydd hwn yn cyrraedd pocedi tenantiaid incwm isel tan fis Ebrill nesaf. Nid yw hyn yn fawr o gysur dros y gaeaf, felly.

## Ymgyrch Cynnes y Gaeaf Hwn

Ym mis Mehefin, pasiodd y Senedd **gynnig** – a gyflwynwyd gan Hefin David AS – ar Cynnes y Gaeaf Hwn. Roedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio i roi atebion ar waith ar gyfer llwybr gwirioneddol allan o'r argyfwng costau byw, ac i godi pryderon gyda Llywodraeth y DU am gostau ynni a'r angen ar gyfer gweithredu cynlluniau cymorth ledled y DU y gaeaf hwn.

Mae Cynnes **y Gaeaf hwn** yn ymgyrch ledled y DU, a gefnogir gan sefydliadau gwrth-dlodi a sefydliadau amgylcheddol. Mae **chwaer ymgyrch** yn cael ei rhedeg yng Nghymru gan Climate Cymru. Mae'r ymgyrch yn galw am weithredu gan

Lywodraeth Cymru a'r DU ar draws pedwar maes:

- **Cefnogaeth frys i aelwydydd bregus**, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus am ddim neu â chymhorthdal sylweddol; cyflwyno prydau ysgol am ddim, yn fwy cyflym; ymestyn gofal plant am ddim i blant dwy oed i bob plentyn; a gwahardd pobl rhag cael eu gorfodi ar fesuryddion rhagdalu.
- **Rhaglen effeithlonrwydd ynni uchelgeisiol**, gan gynnwys atgyfeirio awtomatig i gynlluniau effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi bregus; y Rhaglen Cartrefi Cynnes i fod yn barod i helpu aelwydydd y gaeaf hwn; adeiladu tai newydd i'r safon effeithlonrwydd uchaf posibl; gwybodaeth a chyngor hawdd eu cyrchu ar grantiau effeithlonrwydd ynni sydd ar gael; a benthyciadau i helpu pobl i osod mesurau effeithlonrwydd ynni.
- **Cynnydd cyflym o ran ynni adnewyddadwy cost isel**, gan gynnwys mwy o eglurder ar waith parhaus Ynni Cymru a'r datblygwr ynni a ariennir yn gyhoeddus, a gweithredu cynllun gweithlu ynni adnewyddadwy.
- **Rhoi diwedd y defnydd o danwyddau ffosil**, gan gynnwys rhoi diwedd ar echdynnu, ymestyn ac ehangu glo yng Nghymru, peidio â rhoi nac ymestyn trwyddedau, ar gyfer glo, nwy neu olew, a pharhau i wrthwynebu ffracio.

Ar 6 Rhagfyr, cafwyd dadl gan yr wrthblaid yn y Cyfarfod Llawn **ar brisiau ynni**.

# 2. Prisiau ynni

## Cap prisiau

Mae'r **cap ar bris ynni** yn cyfyngu ar yr hyn y mae defnyddwyr yn talu am bob uned nwy a thrydan a ddefnyddir, ac yn gosod uchafswm dyddiol o ran tâl sefydlog (yr hyn y mae cwsmeriaid yn ei dalu i gysylltu eu cartref â'r grid). Mae'n seiliedig i raddau helaeth ar brisiau ynni cyfanwerthol ac mae'n berthnasol i dariffau safonol a rhagosodedig darparwyr yn unig, gyda'r mwyafrif helaeth o aelwydydd ar y rheini, erbyn hyn.

**Nid yw'n capio cyfanswm y bil nwy a thrydan – mae pa faint mae'r defnyddiwr yn ei dalu yn dibynnu ar faint o ynni mae'n ei ddefnyddio.**

O dan y cap debyd uniongyrchol presennol, pris cyfartalog nwy yw 6.9 ceiniog y cilowat awr (kWh), pris cyfartalog trydan 27.4 kWh. Y taliadau sefydlog ar gyfartaledd yw 29.6 y dydd am nwy a 53.4 y dydd am drydan.

O dan **gap pris debyd uniongyrchol** misoedd Hydref-Rhagfyr 3033, y bil blynyddol

cyfartalog ar gyfer defnydd nodweddiadol o nwy a thrydan yw **£1,834**. Mae hyn yn is na'r lefel o £2,380 o dan y **Gwarant Pris Ynni** rhwng Hydref 2022 a Mehefin 2023, ond 51% yn uwch nag yng ngaeaf 2021/22. Bydd y cap pris yn **cynyddu gan 5%** i **£1,928** yn chwarter cyntaf 2024 a disgwylir iddo ddisgyn yn ôl i tua £1,800 ar gyfer gweddill 2024.

## Adolygiad Ofgem o daliadau sefydlog

Mae'r tâl sefydlog yn gost sydd wedi'i chynnwys ym mhob bil trydan a nwy, ac yn y Cap ar Bris Ynni. Mae cyflenwr yn codi tâl sefydlog ar gartref bob dydd, hyd yn oed os nad yw'n defnyddio unrhyw ynni ar y diwrnod hwnnw.

Mae'r tâl yn cynnwys y gost i gynnal y rhwydwaith cyflenwi ynni, cymryd darlleniadau mesurydd, cefnogi cynlluniau cymdeithasol y llywodraeth – er enghraifft helpu pobl na allant fforddio ynni – a chynlluniau amgylcheddol.

Mae swm y tâl yn dibynnu ar y cyflenwr a ble rydych yn byw ym Mhrydain Fawr. Er bod taliadau sefydlog ar gyfer nwy yn gyson ledled Cymru, **mae gwahaniaeth sylweddol rhwng Gogledd a De Cymru ar gyfer y tâl sefydlog am drydan**.

| | **Hydref – Rhagfyr 23** | **Ionawr – Mawrth 24** |
|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | 62.23c | 62.21c |
| **De Cymru** | 54.23c | 54.21c |
| **Cyfartaledd Prydain Fawr** | 53.37c | 53.35c |

Ffynhonnell: **Tâl sefydlog am drydan fesul rhanbarth, Ofgem**

Ym mis Tachwedd, lansiodd Ofgem **adolygiad** i mewn i daliadau sefydlog. Mae'n egluro cefndir yr adolygiad:

> Including a standing charge and how much to include in energy bills is complicated. If it were to be removed, then suppliers would still need to cover the costs like maintenance in other ways. It could mean that the cost of energy you use would go up. This could help some people to use less energy. However, people who cannot use less energy due to health problems or age, for example those who have electricity-powered medical equipment, would have higher bills.

## Mesuryddion rhagdalu

**Mesuryddion ynni domestig** yw mesuryddion rhagdalu, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr dalu am ynni cyn ei ddefnyddio. Ym mis Ionawr, dywedodd **datganiad gan Lywodraeth Cymru** bod tua 200,000 o gartrefi yng Nghymru yn defnyddio mesurydd rhagdalu ar gyfer eu prif gyflenwad nwy a thrydan, gan gynrychioli:

> ...tua 15% o bob aelwyd a 24% o denantiaid yn y sector rhentu preifat. Mae bron hanner tenantiaid tai cymdeithasol (45%) yn defnyddio mesuryddion rhagdalu.

**Mae ynni'n ddrutach gyda mesurydd rhagdalu, yn enwedig yn y gaeaf**. Yn ôl Cyngor ar Bopeth, y rheswm dros hynny yw os yw rhywun ar fesurydd rhagdalu, ni all y cyflenwr ledaenu cost ynni dros y flwyddyn.

Ym is Tachwedd, gwnaeth y Pwyllgor Deisebau **gyhoeddi** ei adroddiad ar fesuryddion rhagdalu. Gwnaeth wyth argymhelliad, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Cefnogi creu tariff cymdeithasol newydd i bobl agored i niwed er mwyn darparu mwy o gefnogaeth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf;
- edrych ar sut y gall wella gwasanaethau cynghori y gaeaf hwn, gan gynnwys darparu cyllid ychwanegol, a/neu ymgyrch hysbysebu;
- trafod gyda darparwyr cyfleustodau a fyddai'n bosib – o fewn terfynau rheolau diogelu data – i sicrhau, lle mae un sefydliad yn ymwybodol bod cwsmer yn agored i niwed, ei fod yn cael mwy o amddiffyniad yn awtomatig gan gyflenwyr eraill;
- gweithio gyda Llywodraeth y DU ac Ofgem i sicrhau bod mwy o eglurder ynghylch pwy sydd â'r pŵer i rewi'r broses o osod mesuryddion rhagdalu. At hynny, dylai Ofgem weithio gyda chyflenwyr ynni i fonitro sut mae penderfyniadau ynghylch bod yn agored i niwed yn cael eu gwneud, a chan bwy.

# 3. Tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni

## Tlodi tanwydd

**Mae prisiau ynni cynyddol yn gwthio mwy o bobl Cymru i dlodi tanwydd** (a ddiffinnir fel gwario dros 10% o incwm y cartref i gadw'r cartref yn gynnes). **Mae cartrefi gwledig yn cael eu taro'n arbennig o galed**. Mae cynnydd o ran costau ynni yn cael ei waethygu gan y ffaith mai tai yng Nghymru yw **rhai o'r tai lleiaf effeithlon o ran ynni yn Ewrop**.

Yn ôl **amcangyfrifon diweddaraf Llywodraeth Cymru**, **roedd hyd at 45% o holl aelwydydd Cymru mewn tlodi tanwydd**, yn dilyn y cynnydd yn y cap pris ym mis Ebrill 2022. Amcangyfrifwyd bod hyd at 8% o aelwydydd Cymru mewn tlodi tanwydd difrifol. At hynny, amcangyfrifwyd bod 98% o aelwydydd incwm is mewn tlodi tanwydd bryd hynny, gyda hyd at 41% o'r rheini'n meddwl eu bod mewn tlodi tanwydd difrifol.

Mae **cynllun tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru** yn anelu at wireddu'r canlynol erbyn 2035:

- Amcangyfrifir nad oes unrhyw aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol neu barhaus cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- amcangyfrifir nad oes mwy na 5% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd ar unrhyw adeg benodol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol; a hefyd
- bydd nifer yr aelwydydd sydd "mewn perygl" o fyw mewn tlodi tanwydd wedi mwy na haneru yn seiliedig ar amcangyfrif 2018.

## Y Rhaglen Cartrefi Clyd

Mae camau gweithredu Llywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn cael eu cyflawni drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, sy'n cynnwys **Cynllun Nyth, sy'n rhedeg tan fis Mawrth 2024**, a'r rhaglen Arbed sydd bellach wedi dod i ben.

Ym mis Mehefin, gwnaeth Llywodraeth Cymru **gyhoeddi ei chynlluniau** ar gyfer yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae'r datganiad polisi yn amlinellu dull dau gam:

> [Rhan 1:] Drwy fwrw'n gynt yn ein blaenau â'r broses i gaffael gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar y galw, byddwn yn sicrhau dilyniant i helpu'r rhai lleiaf abl i ymateb i'r argyfwng costau byw. Bydd hyn hefyd yn sicrhau newid cyfiawn a fforddiadwy i gartrefi carbon isel.

> [Rhan 2:] Datblygu ffordd integredig ar draws pob math o ddeiliadaeth a lefel incwm i sbarduno datgarboneiddio. Bydd y ffordd integredig o weithio yn seiliedig ar ein profiadau o'r Rhaglen ORP a mentrau tai eraill yng Nghymru.

Bydd y rhaglen nesaf yn cynnig cyngor a chymorth i bob aelwyd yng Nghymru. **Bydd cymhwysedd ar gyfer cymorth gyda mesurau effeithlonrwydd ynni yn y rhaglen newydd yn seiliedig ar gefnogi'r rheini â'r gallu lleiaf i dalu am welliannau eu hunain**.

**Mewn llythyr** i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ym mis Awst, nododd y Gweinidog Newid Hinsawdd y cerrig milltir allweddol ar gyfer y rhaglen newydd. **Dywedodd y byddai'r broses o roi'r rhaglen newydd ar waith yn dechrau ddiwedd mis Tachwedd 2023**.

Mewn ymateb i gwestiwn y Pwyllgor ynghylch a fydd y cynllun newydd yn darparu ar gyfer dull gweithredu seiliedig ar ardal, dywedodd y Gweinidog:

> Byddwn yn gweithio gyda'r cynigwyr llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gyntaf i ddatblygu'r cynllun ymhellach i ddarparu ar gyfer cynlluniau cymunedol ac ar raddfa fach, megis trin teras o dai neu floc o fflatiau lle mai dyna'r ymyrraeth fwyaf priodol.

## Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ei adroddiad ar **ddatgarboneiddio'r sector tai preifat**. Canfu'r adroddiad fod Llywodraeth Cymru, hyd yma, wedi canolbwyntio ar ddatgarboneiddio tai cymdeithasol. O ran 'cartrefi mewn perchnogaeth breifat' – sy'n cyfrif am dros 80% o dai Cymru – dywedodd fod "neb yn sôn am dai preifat" yng nghyd-destun gyfer cyrraedd **targed Llywodraeth Cymru o sero net erbyn 2050, ac fel maes blaenoriaeth i'w archwilio**.

At hynny, cafodd mesurau effeithlonrwydd ynni cyfredol ar gyfer y sector preifat, megis **cynllun Nyth**, y **cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni** a'r **cynllun Uwchraddio Boeleri** eu harchwilio gan y Pwyllgor. Canfu'r Pwyllgor fod y gefnogaeth bresennol yn dameidiog, a galwodd am ddull rheoleiddio hirdymor i ysgogi mesurau effeithlonrwydd ynni mewn tai preifat.

### Canolfannau Clyd

Ym mis Rhagfyr 2022, rhoddodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol agor **canolfannau clyd**, gyda'r nod o gynnig llefydd cynnes i bobl a allai ei chael yn anodd gwresogi eu cartrefi, i fynd iddynt. Cafodd dros **700 o ganolfannau** eu sefydlu ledled Cymru.

Mae **papur a gyhoeddwyd yn ddiweddar** gan Dr Andrew Price, a'r Athrawon Gary Higgs a Mitchel Langford ym Mhrifysgol De Cymru wedi tynnu sylw at amrywiadau daearyddol mewn mynediad i fannau cynnes yng Nghymru.

## 4. Targedu cymorth at y rheini sydd ei angen fwyaf

### Cefnogaeth wedi'i thargedu i deuluoedd ac aelwydydd ag o leiaf un person ag anabledd

Gwnaeth **adroddiad** Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw amlygu ei fod **yn arbennig o bryderus am aelwydydd incwm isel gyda thri neu fwy o blant** "oherwydd bod y terfyn dau blentyn ar Gredyd Cynhwysol yn effeithio ar yr aelwydydd hyn a'u bod nhw'n derbyn yr un taliad costau byw gan Lywodraeth y DU ag aelwydydd llawer llai". At hynny, galwodd y grŵp am **gymorth ychwanegol i aelwydydd incwm isel sy'n cynnwys person anabl**, "oherwydd bod gan yr aelwydydd hyn gostau byw ychwanegol".

Argymhellodd y grŵp y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r cymorth a ganlyn. yn seiliedig ar randaliadau ar gyfer y grwpiau hyn:

- Taliad o £150 i aelwydydd incwm isel gydag 1-2 o blant a fyddai'n costio £12.79 miliwn;
- taliad o £300 i aelwydydd incwm isel gyda 3+ o blant a fyddai'n costio tua £7.16 miliwn;
- taliad o £150 i aelwydydd incwm isel gan gynnwys person anabl a fyddai'n costio £8.37 miliwn.

### Helpu rhentwyr i aros yn eu cartrefi

Yn ystod 2022, deliodd llysoedd Cymru â 937 o hawliadau meddiant landlordiaid preifat a 1,445 o hawliadau pellach o dan y weithdrefn garlam (sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o hawliadau 'dim bai'). Hwn oedd y **nifer uchaf o hawliadau meddiant**

yn y sector rhentu preifat yng Nghymru ers i gofnodion y llysoedd ddechrau yn 1999.

Mae'r duedd hon yn parhau yn 2023. Mae data hyd at ddiwedd mis Medi yn dangos 742 o hawliadau landlordiaid preifat a 1,207 o hawliadau o dan y weithdrefn garlam, sydd – yn y drefn honno – 8% a 27% yn uwch na'r un cyfnod yn 2022.

Mae rhenti preifat hefyd wedi bod yn cynyddu. Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, gwnaeth prisiau rhentu preifat a delir gan denantiaid yng Nghymru **godi 6.9%** yn y 12 mis hyd at Hydref 2023. Mae'r ffigwr hwn yn cymharu â 6.0% yn yr Alban a 5.6% yn Lloegr. Mae elusen tai Shelter Cymru wedi adrodd am enghreifftiau o **gynnydd o 100% mewn rhent**.

Mewn ymateb i bwysau costau byw, mae rhai gwledydd wedi cyfyngu ar godiadau rhent a throi pobl allan o'u cartrefi. Mae gan yr Alban **gap ar rhenti** a saib ar droi pobl allan o'u cartrefi ar waith tan 31 Mawrth 2024. Ymhlith y gwledydd eraill sy'n cymryd mesurau, mae **Iwerddon**, **Sbaen** a **Ffrainc**.

## Cyrchu cyngor a chymorth ariannol

Ar 28 Tachwedd, cyhoeddodd Cyngor ar Bopeth Cymru ei **ddangosfwrdd costau byw diweddaraf.** Yn ôl data ar gyfer Hydref 2023:

- Cyfanswm y bobl a gafodd gymorth gyda chyngor ar ddyledion oedd yr ail uchaf ar gofnod, a 19% yn uwch nag ym mis Hydref 2022.
- Roedd nifer y bobl a gafodd gymorth gyda chyngor ar ddyledion ynni, ôl-ddyledion y dreth gyngor a dyledion dŵr a charthffosiaeth ar y lefelau uchaf erioed.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyngor ar Bopeth Cymru i ddarparu'r **Gronfa Gynghori Sengl**. Cadwodd lefelau cyllid ar gyfer 2023-24 yr un fath ag ar gyfer 2022-23. Wrth ymateb **i argymhelliad** gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wrth graffu ar y gyllideb ddrafft yn gynharach eleni, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Comisiynwyd dadansoddiad annibynnol o anghenion er mwyn creu sail dystiolaeth gadarn a chynhwysfawr o'r angen am gyngor ar les cymdeithasol. Byddwn yn defnyddio'r dadansoddiad hwn i lywio ein penderfyniadau ynghylch faint o gyllid a ddarperir ar gyfer gwasanaethau cynghori yn y dyfodol.

### Y Gronfa Cymorth Dewisol

Yng **Nghyllideb Ddrafft 2023-24**, dyrannodd Llywodraeth Cymru £18.8 miliwn ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol. Cafodd y dyraniad ychwanegol hwn ei wneud er mwyn sicrhau bod pobl yr effeithir yn ddifrifol arnynt gan yr argyfwng costau byw yn gallu parhau i gael mynediad at y cymorth brys hwn. Mewn **datganiad ysgrifenedig** Ym mis Chwefror 2023, dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol y byddai Taliadau Cymorth Brys a wneir drwy'r DAF yn cynyddu 11%, hyd at uchafswm taliad o £111.

Mewn **llythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** ym mis Gorffennaf, dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol:

> Mae'r ffigurau misol yn dangos bod y Gronfa Cymorth Dewisol yn gweithredu o fewn y gyllideb. Y gwariant targed chwarterol yw £8.5m, ac ar gyfer y chwarter cyntaf (Ebrill – Mehefin 2023) mae ffigurau gwirioneddol yn dangos gwariant o £8.1m. Fodd bynnag, mae swyddogion yn ymwybodol bod y galw ar y Gronfa Cymorth Dewisol yn debygol iawn o gynyddu yn ystod yr hydref/gaeaf yn sgil disgwyl y bydd costau tanwydd yn codi.

## 5. Tlodi bwyd

### Banciau bwyd

**Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2023**, dosbarthodd banciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell yng Nghymru 88,518 o barseli bwyd. Dyma'r nifer uchaf ar gofnod – 15% yn uwch nag ar gyfer y cyfnod cyfatebol yn 2022 a 77% yn uwch nag ar gyfer y cyfnod cyfatebol yn 2018.

**Yn ôl Ymddiriedolaeth Trussell**, hwn fydd y gaeaf prysuraf erioed mewn banciau bwyd, ac aeth ymlaen i ddweud:

> …there are fears that the long-term problem of social security payments being too low to cover essentials, plus the ongoing cost of living crisis, and the coming winter will push some food banks to their limit and they may not be able to meet all of the need in their communities.

Mae Ymddiriedolaeth Trussell wedi galw ar Lywodraeth y DU i wneud nifer o newidiadau mewn perthynas â budd-daliadau nawdd cymdeithasol, budd-daliadau anabledd a'r Lwfans Tai Lleol. Mae hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun cenedlaethol i leihau ac atal yr angen am gymorth bwyd brys.

## Dull mwy hirdymor o fynd i'r afael â thlodi bwyd

Yn dilyn ei ymchwiliad i ddyled ac effaith costau byw cynyddol, gwnaeth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol **ddod i'r casgliad a ganlyn**:

> Cyhyd â bod incwm aelwydydd yn methu â thalu costau bwydydd, mae banciau bwyd yn debygol o barhau i chwarae rhan bwysig yn yr ymateb i'r argyfwng. Fodd bynnag, yn y tymor hir, rydym am weld ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn cael eu rhoi ar sylfaen fwy cynaliadwy. Rydym o'r farn bod gwaith mentrau cymdeithasol fel Well-Fed yn cynnig gweledigaeth o sut gallai dull mwy cynaliadwy edrych – bod pobl sy'n bwyta'n dda yn ymdopi'n dda.

Roedd y Pwyllgor yn **argymell fel a ganlyn**:

> Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy cynaliadwy ac ataliol o fynd i'r afael â thlodi bwyd drwy gefnogi mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu i gyflawni nodau ehangach megis gwella sgiliau coginio mewn cymunedau lleol a darparu prydau iach.

## Strategaeth Bwyd Cymunedol

Gwnaeth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ysgrifennu **at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, ar 3 Hydref** i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad **argymhellion y Pwyllgor** yn dilyn cwymp Bil Bwyd (Cymru) ym mis Mai. Dywed y llythyr:

- Mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi dogfen sy'n dwyn ynghyd holl bolisïau bwyd Llywodraeth Cymru cyn diwedd y flwyddyn, a , "gyda'i gilydd, bydd yn cyflwyno agenda strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer materion bwyd".
- Wrth dynnu'r ddogfen at ei gilydd nodwyd rhai "cyfleoedd posibl o ran polisi" sydd, ochr yn ochr â **gwaith ymgysylltu wedi'i gwblhau â rhanddeiliaid**, yn bwydo i mewn i'r Strategaeth Bwyd Gymunedol sydd ar ddod. Mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi'r strategaeth yn 2024.
- Mae Cyfarwyddwr Materion Gwledig Llywodraeth Cymru yn cadeirio fforwm traws-bortffolio o uwch swyddogion ar faterion bwyd, "trefniant a fydd yn parhau fel modd i gynorthwyo gyda datblygu polisi at y dyfodol".

# 6. Bwydo plant oed ysgol

## Ymestyn cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim i blant oed ysgol uwchradd

Gwnaeth **adroddiad** Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw groesawu'r symud i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn oed ysgol gynradd, ond mynegodd bryder, mewn perthynas â darpariaeth mewn ysgolion uwchradd:

> Mae'n amlwg bod y cyfyngiadau presennol ar gymhwysedd am FSM yn gyfyngol … Mae'r Grŵp Arbenigol yn canolbwyntio'n benodol ar y sefyllfa ar gyfer aelwydydd incwm isel ar fudd-daliadau nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd am FSM. Mae'r teuluoedd hyn yn derbyn Credyd Cynhwysol ond maen nhw ychydig y tu allan i'r meini prawf cymhwysedd oherwydd y cap enillion a gyflwynwyd yn 2019. Mae darpariaeth FSM yn hanfodol i helpu'r teuluoedd hyn i osgoi sefyllfaoedd cyllidebu negyddol a phrofi lefelau tlodi dyfnach.

Argymhellodd y grŵp y dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim i Flynyddoedd 7-11 ar gyfer yr aelwydydd hynny sy'n cael Credyd Cynhwysol, heb gap ar enillion.

## Y penderfyniad i atal prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau

Ar 16 Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **asesiad effaith** ynghylch ei benderfyniad i **roi'r gorau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol am gyfnod amhenodol**. Dywed:

- "Mae'n debygol y bydd peidio ag ailgyflwyno'r ddarpariaeth yn arwain at gynyddu'r risg o anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol, megis anghydraddoldebau iechyd a chyrhaeddiad". Mae teuluoedd a phlant ag anableddau, teuluoedd un rhiant, a theuluoedd o rai cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y penderfyniad.
- "Fodd bynnag, caiff yr effeithiau negyddol eu lliniaru". Bydd teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i allu manteisio ar y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf, mynediad i gynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau sy'n darparu bwyd, ac "mewn llawer o ardaloedd, mynediad at gyllid dewisol gan awdurdodau lleol".

- Cyfanswm cost darparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol yw £35m y flwyddyn, a fyddai'n gofyn am ailbennu cyllid o rywle arall yn y gyllideb addysg. Daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad y "gallai unrhyw doriadau o'r fath i wasanaethau craidd gael canlyniadau difrifol ac effeithiau negyddol ar bob plentyn ledled Cymru".

## Brecwast ysgol am ddim i blant Blwyddyn 7

Bu Llywodraeth Cymru yn treialu brecwast ysgol am ddim i blant blwyddyn 7, a wnaeth **orffen ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2022/23**. Darparodd y cynllun peilot lwfans ychwanegol o hyd at £1 y dydd i ddisgyblion Blwyddyn 7 sy'n cael prydau ysgol am ddim i gael brecwast heb ddefnyddio credyd cinio amser cinio.

Ym mis Mai 2023, gwnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg **ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** am y cynllun peilot. Dywedodd y Gweinidog, "rwy'n benderfynol o sicrhau nad oes yr un plentyn yn mynd heb fwyd yn ystod y diwrnod ysgol, a byddaf yn edrych ar rinweddau'r cyngor sydd wedi ei roi i mi [gan swyddogion Llywodraeth Cymru], gan ystyried materion fel fforddiadwyedd, effaith ar ddysgwyr a pherthynas ag opsiynau posibl eraill yn y maes bwyd i ysgolion".

## Darparu prydau ysgol maethlon

Gwnaeth **adroddiad** Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw alw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo dulliau Buddsoddi i Arbed i flaenoriaethu canlyniadau cynaliadwy ar gyfer aelwydydd incwm isel. Un o'r enghreifftiau y mae'n ei roi yw cynyddu gwerth maethol prydau ysgol.

Yn ôl adroddiad **a gyhoeddwyd gan Well-Fed**, rhoi bwyd iachach i blant yw'r cyfle pennaf i gefnogi a gwella iechyd a lles cymunedau. Mae'n gofyn, gyda buddsoddiad y llywodraeth mewn prydau ysgol am ddim yng Nghymru, ai dyma'r amser i fynnu bod plant hefyd yn cael bwyd iachach. Mae Well-Fed yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dileu **bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth** o gadwyn gyflenwi'r sector cyhoeddus erbyn dechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi 2026.